



Ysgol Pentreuchaf

72. Polisi Defnydd o Ffonau Symudol

Disgyblion yr Ysgol

Nod

Mae gennym ddyletswydd fugeiliol tuag at ein disgyblion a thrwy hynny mae'r ysgol hon yn hyrwyddo atal camdriniaeth ac esgeulustod trwy greu a chynnal awyrgylch diogel i'w disgyblion.

Canllawiau

1. Mae bwlio technolegol/cyfathrebol yn sefyll ochr yn ochr â ffurfiau eraill o fwlio. O ganlyniad, ni ellir caniatâu i ddisgyblion ddod â ffonau symudol ar safle'r ysgol onibai am yr eithriadau nodir isod:

i) Pan fydd plentyn angen ffôn yn yr ysgol i ffonio adref yn dilyn gweithgaredd ar ôl yr ysgol, boed hynny yn rywbeth wedi ei drefnu gan yr ysgol, neu yn ymweld â ffrindiau a.y.y.b.

ii) Pan fydd plentyn wedi dod â ffôn i'r ysgol ar ddamwain.

* Ni chaniateir defnyddio'r ffonau gan ddisgyblion tra ar safle'r ysgol onibai bod aelod o staff yn bresennol, ond dim ond mewn amgylchiadau anarferol iawn y dylai hyn ddigwydd gan ein bod yn caniatâu i blant ddefnyddio ffôn yr ysgol os oes gwir angen.

* Os bydd plentyn wedi dod â ffôn i'r ysgol (i) neu ii) uchod) bydd yr ysgol yn cadw'r ffôn yn swyddfa'r pennaeth a'i ddychwelyd i'r disgybl ar derfyn y dydd.

2. Atgoffa'r plant, yn rheolaidd, nad ydynt i ddod â ffôn symudol i'r ysgol ac y dylent ei roi i un o'r staff os byddant wedi dod ac un ar ddamwain.

3. Eglurhâd o drefn yr ysgol ynglŷn â ffonau symudol yn y Prosbectws rennir i bob teulu yn flynyddol.

Trefn Ddisgyblu

Pe bai disgybl yn defnyddio ffôn symudol (gwneud defnydd amhriodol o ffôn symudol) tra ar safle'r ysgol:

i) Mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi 'Ymddygiad a Disgyblaeth' yr ysgol.

ii) Bydd yr ysgol yn cadw'r ffôn yn swyddfa'r pennaeth. Bydd y ffôn yn cael ei ddychwelyd i'r disgybl ar derfyn y diwrnod ysgol.

Staff yr Ysgol

Nod

Cynnig canllawiau ar gyfer staff, er lles eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a hefyd i bwrpas rheoli camddefnyddio offer yn ystod oriau gwaith.

Canllawiau

1. Caniateir defnyddio ffôn symudol personol yn ystod cyfnodau egwyl ac amser cinio, ond dylid sicrhau fod y defnydd hwn allan o olwg y disgyblion.

2. Rhaid cadw pob ffôn symudol yn ystafell athrawon neu swyddfa'r pennaeth, ni chaniateir i unrhyw aelod o staff fynd â ffôn symudol i ddosbarthiadau, y ffreutur neu ar dir yr ysgol.

3. Pan fydd dosbarthiadau ynmynd am dro yn lleol, neu ar ymweliadau eraill, bydd gofyn i'r staff fynd â ffôn symudol gyda hwy i sicrhau iechyd a diogelwch a'u galluogi i ymateb ar fyrder pe codai unrhyw broblem.

4. Bydd pob aelod o staff yn arwyddo Swydd Ddisgrifiad blynyddol fydd yn egluro'r drefn yn glir iddynt.

Yr Ochr Gyfreithiol

O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anwedus neu fygythiol i unrhyw berson, boed yn llythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd

Y gosb am dor-gyfraith a'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu ddirwy hyd at £5,000. Ymhellach, os bydd y neges yn awgrymu y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd at 5 mlynedd o garchar. Os bydd y neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____